CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**11.01.24**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol:** JOJ (Cadeirydd) DAW ; JAJ; TAJ;EY;RY;AR;LLMH;RJ<br><br>**Ymddiheuriadau:** DP; IW; EO; GW<br><br>Mynyc**hu:** SWR<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at brofedigaeth ddiweddar y Cyng Jackie Lewis. Yn drist iawn bu farw ei hwyr yn dilyn gwaledd hir yn Ysbyty Alder Hey. Roedd cydymdeimlad yr aelodau yn ddiffuant ac fe nodwyd bod y Clerc wedi anfon cerdyn i ddatgan hyny at Cyng JL a'i bod wedi cydnabod ei dderbyn yn hynod ddiolchgar. |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br><br>Datganodd JAJ a DAW ddiddordeb mewn Eitem 6 Materion Cyllidol a Thaliadau |
| 3 | **Cofnodion 04.12.23** Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 04.12.23 fel rhai cywir (JAJ/RJ)<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>• **Rhagolygu gwariant ar gyfer gosod praesept 2024/25**<br>Cafwyd trafodaeth eang ar y ddogfen rhagolygon a gylchredwyd eisoes gan y Clerc. Nodwyd y pryderon canlynol:<br><br>❖ colli cyfraniadau cymorth cymunedol y melinau gwynt. Nododd y Clerc ei bod wedi cysylltu a chwmni Ventient i holi am pa hyd bydd y cymorth i'w gael – dim ateb eto.<br>❖ costau cynnal a chadw'r 6 fynwent – costau wedi codi bron i dair gwaith yn fwy na'r blynyddoedd blaenorol<br>❖ costau trydan; nwy a dwr yn cynnyddu'n sylweddol ee bil am olau i'r Goeden Dolig dros £250 am y cyfnod |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | ❖ gallu y Cyngor Cymdeithas i gynnal a chadw ei adnoddau i safon dderbyniol a statudol mewn rhai achosion.<br><br>Cytunwyd i'r Clerc geisio dyraniad o bremiwm costau yswiriant gyda'r awgrym y gallasai Cronfa Ysgol Haearn ymgymryd costau Cae Gofeb a Glan Menai dros dro. Trafod ymhellach yn yr Is bwyllgor Cyllid nesaf.<br>Yng ngoleuni'r uchod cynnigiodd JAJ i godi'r praesept 10% ar gyfer 2024/5 ac fe eilwyd gan TAJ – cytunwyd yn unfrydol. Nodwyd y pwysigrwydd i'r aelodau gyfeirio at y pryderon uchod pe baent yn cael unrhyw gwestiynau/heriau gan y gymdogaeth am codi'r praespet. Clerc i weithredu'r gwaith papur perhtnasol o fewn amserlen CSYM<br><br>• **Creu Cwmni Cymunedol –**<br>Adroddodd LLMH ar y cysyniad o lunio Cwmni Cymunedol a'r trafodaethau cychwynnol mae wedi gael gyda swyddogion Cyngor Sir a Menter Môn. Er mynegwyd ychydig o bryder am hyn, cynnigiodd TAJ ac fe eiliodd DAW i wahodd Dafydd Gryffudd Menter Môn atom i gynnal trafodaethau cychwynnol ar y manteision a'r anfanteision posib. Cytunwyd yn ufrydol i'r Clerc weithredu rhag blaen.<br><br>• **Aelodaeth Is Bwyllgorau –** cytunwyd i addasu'r aelodaeth fel â ganlyn:-<br>**Is Bwyllgor Cyllid:** JAJ;DAW;AR;EO;RY;EY;LLMH<br><br>**Is Bwyllgor Safleoedd:** DP;GW;IW;RJ;JOJ;TAJ<br><br>Clerc i gychredeg cadarnhad o'r uchod ac amserlen cyfarfodydd 2024 at yr aelodau.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 11.01.24 |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>Dim i law. |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Rhagfyr –** **£**<br><br>Scottish Power Coeden Dolig 247.22<br>JRB bagia baw ci 77.88<br>Clive Harper – Kitchenware on line , silff seramig 103.54<br>MSI Alarms – arolwg Caffi 115.20<br>WAO – cyfrifon 22/23 225.00<br>SP Uned 1 85.06<br>Rhys Jones – EPC's Unedau 528.00<br>Huw Jones – trydan tystysgrif Caffi a PAT 711.00<br>Cyflog Clerc Rhagfyr 450.08<br>JRB – bagia baw ci 77.88 |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | **Biliau cyfredol:** **£**<br>Alun Lewis – torri gwair 2023 5838.00<br>Scottish Power – Caffi cyfnod Hydref a Tachwedd 375.22<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £ 14488.96<br>Cyfrif Cadw: £ 8497.35 |
| **7** | **Materion Cynllunio**<br><br>Dim i law |
| **8.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –**<br><br>Nododd LLMH mai prif fater i'w gyflwyno heno er gwybodaeth oedd sefyllfa arainnol CSYM ar gyfer 2024-25. Nododd y canlynol_<br><br>• 2.5% o gynnydd gan Llywodraeth Cymru, wedi ei seilio ar fformiwla poblogaeth.<br>• 1.4m o fwlch ariannol<br>• Camau i ateb y diffygion - wedi chwynu holl linellau'r gyllideb i arwain at bron i £5m mewn toriadau i'r gwasanaethau - £1m o hyn ar gostau staffio, cynnydd mewn ffioedd a dim yn llawn gylildo gofynion addysg ee lleihau oriau Addysg Dysgu Ychwanegol (ADY).<br>• Diffyg mewn grantiau gan y Llywodraeth ar gyfer cynnydd mewn cyflog athrawon a'u pensiynau.<br>• Swyddi mewn risg, pan fo swydd yn dod yn wag, ail-edrych ar y swydd ddisgrifiad a cheisio rhannu cyfrifoldebau a thasgau<br>• Argymell cynnydd mewn costau parcio.<br>• Adolygu gwasanaethau Canolfannau Hamdden<br>• Cynnydd mewn digartrefedd ac anghenion gofal plant ac oedolion bregus yn gostus. Ffodus bod gan yr CSYM 4 cartref gofal gan fod cartrefi preifat yn gallu enwi eu costau.<br><br>I gloi nododd bod CSYM yn anelu i gydbwyso ar godiad o 10.9% ac mai cyllideb drafft sydd i law fydd yn ennyn trafodaeth bellach dros yr wythnosau nesaf.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i LLMH am ei diweddariad. |
| **9** | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel -** Nododd y Clerc bod Mr Keith Andrew wedi cyflwyno rybudd ar lafar i adael Uned 5 a 6. Cytunwyd bod angen ail-gydio yn nhrafodaeth dyfodol y safle<br><br>**Safle'r Stesion –** tystygrif trydan wedi ei gwblhau, anos cael cyflenwr nwy masnachol i gwblhau tysysgrif nwy – tenant a'r asiant yn trafod ymhellach. Adborth positif iawn i wasanaeth Mr Harper yn y Caffi |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | **Lawnt Fowlio –** dim i law<br>**Clwb Peldroed –** dim i law<br>**Cae Gofeb –** dim i law<br>**Mynwentydd** – dim i law<br><br>Nodwyd bod problem gyda loriau yn dymchwel ardal werdd ym Maes Cyhelyn – CSYM eisoes yn ymwybodol o'r sefyllfa ac wedi cynnal ymweliad safle. |
| **10.** | **Gohebiaeth**<br>Ers cychredeg y papurau ar gyfer heno fel gylchredwyd yr isod hefyd.<br>• Diolch i Staff Stena Line am anrhegion Nadolig<br>• Ysgol Uwchradd Caergybi yn croesawu dysgwyr yn ôl<br>• Cais am Rhieni Maeth<br>Cydnabuwyd derbyn yr ohebiaeth fel â nodwyd uchod ac ar y Rhaglen – dim sylwadau pellach. |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 20.55* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383